Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Pistyll.

Nos Fawrth, 10 Mehefin 2025 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan.

Presennol: Griffith Jones, Jina Gwyrfai, Lois Fychan, Sianelen Pleming, Gethin Jones (cadeirydd).

| | |
|---|---|
| **1.** | Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan GJ a chytunodd SP i gymryd cofnodion. |
| **2.** | Ymddiheuriadau: William Jones, Olwen Roberts, Derek Thomas |
| **3.** | Datgan Diddordeb: neb |
| **4.** | Cyflwynwyd a mabwysiadwyd cofnodion mis Mai. GJ cynnig, LF yn eilio. |
| **5.** | **<u>Materion yn codi</u>**<br>a) Llythyr HMRC. GJ wedi ffonio'r cyfrifydd – dim i'w boeni ond bydd angen gweithredu wrth benodi clerc newydd.<br>b) Nant Gwrtheyrn wedi cynnig cyfle i fynd yno i siarad am y sylwadau negyddol. SP yn awgrymu y byddai'n well i Nant gael gwahoddiad i ddod i gyflwyno ei hun i'r cyngor cymuned. JG yn cynnig iddi ddod y mis nesaf.<br>**Penderfynwyd gwahodd prif weithredwr Nant Gwrtheyrn i gyfarfod nesaf y cyngor i gyflwyno ei hun fel prif weithredwr newydd. SP yn cynnig JG yn eilio. JG am gysylltu.**<br>c) 'Deed of Easement'<br>Einir Young wedi cysylltu eto efo JG – ddim yn deall nad oedd neb wedi ei ffonio o'r cyfarfod diwethaf. Eisiau trefnu cyfarfod efo'r cadeirydd a JG yn bersonol. Eglurodd SP bod Dafydd Rhun yn awyddus i ddod â'r mater i fwcwl. Eglurodd hefyd bod cytundeb rhwng pawb, yn cynnwys Einir Young, mai rhywbeth hollol syml oedd ei angen a phawb yn gallu cynnal a chadw fel bo'r angen. Yr oedd y nodyn syml wedi ei ddrafftio yn y cyfarfod efo Einir Young. Cadeirydd yn hapus i siarad efo Einir Young.<br>• **Penderfynwyd bod y mater yn nwylo y cyfreithwyr ac nid oedd dim arall i'w ateb. Ni fydd yr eitem ar yr agenda eto. SP i gysylltu efo Dafydd Rhun. (SP yn cynnig, GJ yn eilio).**<br>d) Yswiriant yn iawn ar hyn o bryd. Bydd angen gweithredu pan ddaw y clerc newydd.<br>e) Cofnodion coll. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r cofnodion yn dal ar goll. Bydd rhaid egluro beth sydd wedi digwydd pan ddaw yr amser am archwiliad allanol eto.<br>f) Mainc Pistyll – hab gael cyfle i dynnu yr hen fainc<br>g) Llecynnau angen eu harddu (SP)<br>• **Penderfynwyd codi'r mater eto pan fydd clerc wedi ei benodi fedar ddilyn y mater ymlaen.** |
| **6.** | **Penodi Clerc Cyngor Cymuned Pistyll : adroddiad y Cadeirydd.** (GJ)<br>Neb wedi trio am y swydd.<br>Ni ellir cario ymlaen fel mae pethau. Trafodwyd bod person sydd yn fodlon gwneud y gwaith am £17 yr awr. Trafodwyd person oedd eisiau gwneud y gwaith ond wedi penderfynu ei bod yn rhy brysur i gymryd cyfrifoldeb ychwanegol gan bod ganddi blant ifanc. Trafodwyd efallai y gallwn ofyn yn uniongyrchol i rywun gan nad oedd neb wedi trio. Nid yw'r hysbyseb wedi bod yn y Llanw. GJ yn fodlon sortio'r cynfarfod blynyddol.<br>• **Penderfynwyd ail hysbysebu yn Llanw/ Herald/ Ffynnon/ Golwg/ lleol/ Cymro etc ar gyfer mis Medi a thrio siarad efo pobol a rhoi dyddiad cau 31 Gorffennaf. SP yn cynnig GJ yn eilio.** |
| **7.** | **Aelodaeth Unllais** (GJ)<br>Unllais fel rheol yn gofyn. JG i ffonio i ofyn pryd mae o'n ddyledus a newid yr e-bost efo Unllais. |
| **8.** | **Gwefan ccpistyll.cymru –**<br>Angen lluniau ar gyfer y wefan.<br>Dal yn methu cael gwared o'r hen wefan. Angen llythyr twrnai i gau yr hen wefan.<br>• **Penderfynwyd rhoi caniatâd i GJ drafod efo Rhys Tudur dalu hyd at £300 i sortio'r hen wefan.** |
| **9.** | **Ceisiadau Cynllunio**<br>Cais C25/0411/43/LL (Gwynus Ucha, Pistyll, Pwllheli, LL53 6LY, Parlwr Godro)<br>• **Penderfynwyd cefnogi'r cais.**<br>C25/0358/43/DT - Cais am estyniad i Tîr bach<br>Cafwyd trafodaeth ar y cynlluniau a nodi ei fod yn fawr ac ddim yn hollol gydnaws â'r adeilad presennol. JG wedi ysgrifennu yn barod i'r perwyl hwnnw. |

| | |
|---|---|
| | • **Penderfynwyd rhoi sylwadau ei fod yn biti nad ydi'r cynlluniau yn fwy cydnaws â'r adeilad presennol. GJ i weithredu.**<br>SP yn cynnig GJ yn eilio. |
| **10.** | **Cyflwyno a Mabwysiadu Polisïau**<br><br>**Pedwar polisi i'w trafod.**<br><br>Polisi ar Gadw a Gwaredu Dogfennau. Mabwysiadu polisi sy'n seiliedig ar gyngor Bangor.<br><br>Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth –<br><br>Polisi ar Ddiogelu Gwybodaeth a Data –<br><br>POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL<br><br>• **Penderfynwyd darllen y 4 polisi yn ystod y mis a'u pasio yn y cyfarfod blynyddol.** |
| **11.** | **Hyfforddiant Unllais Cymru**<br><br>Penwyd nos Lun 6:30 – 8 Mehefin fel hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr. JG, SP, LF a GJ i fynd. |
| **12.** | **Cyllidol**<br><br>Anfonebau GJ wedi dod i law.<br><br>**Ceisiadau Grant** |
| **13.** | **Diweddaru Asedau:**<br><br>• Y groes yn barod am fainc newydd.<br>• Wal mynwent Pistyll wedi disgyn. Angen tri pris i symud ymlaen i osod wal gerrig efo sment.<br>• Prisiau erbyn y cyfarfod nesaf. |
| **14.** | **Unrhyw Fater Arall.**<br><br>• Gofyn am lythyr cefnogaeth i Hafod Ceiri gael grant i ail wneud y cynlluniau er mwyn cael gwres a thrydan i'r festri. |
| **15.** | **Cyfarfod nesaf :**<br><br>8 Gorffennaf. Cyfarfod blynyddol am 7pm prif weithredwr Nant i ddod am 7:30 yn y Ganolfan Llithfaen. |